



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

18/11/2021

Mae'r wythnos hon yn teimlo fel bod gafael oerfel yr Hydref wedi cydio wrth i ni nesáu at dymor traddodiadol y gaeaf, a meiddiaf sôn am sgysiau ynghylch y Nadolig gartref ac yn y gwaith. Rydw i wir yn gobeithio y bydd yn dymor i fod yn llawen, ond y realiti i nifer ohonom sy'n gweithio yn y GIG a'r cleifion yw ei bod hi'n gyfnod anodd o'r flwyddyn.

Eleni, gyda'r angen i gyfyngu ar ymweliadau a mynediad at y rhai hynny yn yr ysbyty, i leihau'r risg o haint COVID-19, bydd yn anoddach fyth i rai. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid awdurdod lleol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, teuluoedd a ffrindiau i sicrhau ein bod ni'n rhyddhau gymaint o bobl â phosibl o'n hysbytai er mwyn iddynt fod gartref gyda'u hanwyliaid.

Dros yr wythnosau nesaf, wrth i ni ddechrau wynebu pwysau'r gaeaf - er ei fod yn teimlo fel pe bai'r gaeaf wedi dechrau ym mis Awst eleni - byddwn yn gofyn i'n cymunedau i wneud popeth o fewn eu gallu i gadw eu hunain yn iach. Mae'n well atal na gwella a, lle bo'n bosibl, cymerwch ofal o'ch hunain. Mae llithro, baglu a chwympo yn rhai o'r prif resymau dros dderbyniadau i'n huned achosion brys yn ogystal â chyflyrau anadlol, a achosir yn aml gan rywbeth mor syml â bod yn oer. Rwy'n siŵr bod hyn yn anodd i bawb, wrth i nifer wneud eu gorau i gadw'r gwres ymlaen gyda phrisiau'n codi a nifer yn teimlo'r wasgfa o ran costau tanwydd.

Mae gennym lawer o wybodaeth am sut y gallwch ofalu am eich hun a'ch anwyliaid, yn enwedig pobl hŷn ac eiddil. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan Cadw Fi'n Iach.

Un o'r ffyrdd gorau y gallwch chi ein helpu ni i'ch helpu chi yw trwy gael brechiad rhag y fflw. Byddwn yn annog ein holl staff yn ogystal â'n cleifion a'r gymuned i gael y brechiad rhag y fflw cyn gynted â phosibl. Mae'r dystiolaeth yn glir. Trwy gael y brechiad rhag y fflw a dau frechlyn COVID-19, rydych chi'n amddiffyn eich hun rhag bod yn ddifrifol sâl, ond hefyd yn amddiffyn eraill o'ch cwrmpas.

Yn dilyn y digwyddiadau ofnadwy yn Lerpwl ar Sul y Cofio, sydd bellach yn cael ei drin fel gweithred o derfysgaeth, ac o ganlyniad i farwolaeth yr Aelod Seneddol David Amess, mae lefel bygythiad y DU wedi'i chynyddu o sylweddol i ddifrifol, yn unol â lefelau rhybudd gwrthderfysgaeth cenedlaethol.

Hoffwn bwysleisio nad oes gwybodaeth i awgrymu ein bod ni'n disgwyl bygythiad i'n safleoedd ysbyty ein hunain, ond mae gennym ddyletswydd a chyfrifoldeb i fod yn wyladwrus a'r neges yw bod yn ymwybodol, nid bod ag ofn.

Mae'n bosibl y bydd ein cymunedau yn sylwi ar fwy o bresenoldeb yr heddlu mewn rhai lleoliadau proffil uchel lle bydd llawer o bobl yn ymgynnull. Eto, mae hyn yn unol ag ymatebion blaenorol i lefel bygythiad cenedlaethol sydd wedi newid. Os ydych chi'n gweld rhywbeth

amheus, neu rywbeth gwahanol i'r arfer, rhowch wybod i'n tîm diogelwch yn y lle cyntaf. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau prin ac anarferol ac mae cymaint yn well bod yn ymwybodol a rhoi gwybod yn hytrach na difaru ar ôl digwyddiad.

Rydym yn parhau i gyfyngu ar ymweliadau ar draws nifer o'n safleoedd ond byddwn yn eich annog o hyd i fod yn fwy ymwybodol a rhoi gwybod am unrhyw beth amheus.

Prof Stuart Walker
Prif Weithredwr Dros Dro

Staff Caerdydd a'r Fro yn cael cydnabyddiaeth gyda chyfres o wobrau

Yn dilyn llwyddiant ein Tîm Gofal Llygaid yn ennill gwobr driphlyg, mae ein cyfres o lwyddiannau yn parhau gyda chyflawniadau rhagorol pellach ar gyfer ein nyrsys a'n bydwagedd, yn ogystal â'n cydweithwyr creadigol yn yr Adran Darlunio Meddygol. Mae'r gwobrau cenedlaethol hyn yn llwyr haeddiannol ac yn tynnu sylw at y gwaith anhygoel mae ein staff wedi'i gyflawni yn ystod blwyddyn heriol dros ben.

Yr wythnos diwethaf, cafodd ein staff nyrsio a bydwreigiaeth eu cydnabod a'u canmol yng Ngwobrau Nyrs y Flwyddyn Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru 2021. Mae'r digwyddiad blynyddol yn dathlu cyflawniadau nyrsys a bydwagedd ar draws Cymru ac yn cydnabod eu dylanwad cadarnhaol ar ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth, a'r gofal maent yn ei ddarparu i unigolion a chymunedau.

Cyflwynwyd Gwobr Nyrs y Flwyddyn Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru i'n cydweithiwr Kirsty John, anrhydedd haeddiannol ar gyfer y gwaith anhygoel mae hi wedi'i wneud yn arwain y system brofi ar gyfer yr holl ddynion sy'n cyrraedd y ddalfa a chreu canolfan frechu o fewn Carchar EM Caerdydd. Fe enillodd Kirsty y Wobr Nyrsio Gofal Sylfaenol hefyd. Rhoddwyd cyfanswm o bump o wobrau i'n staff ar draws saith categori gwahanol. Katherine Fischer oedd enillydd y Wobr Plant a Bydwreigiaeth, Sarah Rees a Paula Strong yn yr ail safle ar gyfer y Wobr Uwch Nyrs a Nyrs Arbenigol, Abigail Holmes yn yr ail safle ar gyfer y Wobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru, Emily John yn yr ail safle ar gyfer Gwobr Nyrs

Gofrestredig (Oedolion), Emma Williams oedd enillydd Gwobr Cefnogi Gwelliant Drwy Ymchwil, a derbyniodd Laura Truscott-Wright Wobr Nyrsio Pediatrig Suzanne Goodall.

Dyweddodd Ruth Walker, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, "Llongyfarchiadau enfawr i Katherine, Sarah, Paula, Abigail, Emily, Kirsty, Emma a Laura am ddangos y cyfraniad anhygoel maen nhw'n ei wneud i'r proffesiwn nyrsio a bydwreigiaeth yma yng Nghymru a'r fantais i'n cleifion, dinasyddion a'n cymunedau. Roedd yn bleser gweld eich gwaith yn cael ei gydnabod yng Ngwobrau Nyrs y Flwyddyn y Coleg Nyrsio Brenhinol neithiwr.

"Mae pob gwobr neu enwebiad yn gwbl haeddiannol ac yn dangos faint o nyrsys a bydwagedd ymroddedig a thalentog unigryw sydd gennym yn BIP Caerdydd a'r Fro.


"Ar ôl blwyddyn anodd, mae'n wych gweld ein nyrsys a'n bydwagedd gweithgar yn cael eu cydnabod am eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn gofalu am ein cleifion. Mae'n anhygoel gweld sut rydych wedi parhau i arwain, cymell ac arloesi o fewn eich amgylcheddau clinigol i wella canlyniadau i gleifion. Diolch yn fawr."

Yn ogystal, fe enillodd ein Hadran Darlunio Meddygol gyfanswm o 17 gwobr yng Ngwobrau The Institute of Medical Illustrators, sy'n cydnabod rhagoriaeth mewn ffotograffiaeth glinigol, dylunio gofal iechyd a fideo clinigol. Hoffwn sôn yn arbennig am Bolette Jones, Pennaeth Gwasanaeth Darlunio Meddygol, a dderbyniodd Fedal Aur Norman K.

Harrison, gwobr uchel ei bri gan y Cadeirydd am ei chyfraniad rhagorol i'r proffesiwn.

Fe enillodd cydweithiwr iddi, Abi Bird, wobwr aur am ei ffotograff o Polypoidal Choroidal Vasculopathy a dynnwyd ar gamera retinol eang. Enillwyr y wobwr arian oedd Abi Bird, Jess

Leonard a Hannah Wilce, ac enillwyr y wobwr efydd oedd Abi Bird, Laura Mullen, Khris Swann, Joe Moody, Hannah Wilce a Lauren Price. Hoffwn longyfarch y tîm hwn, sy'n grŵp o bobl hynod fedrus ac arbenigol sy'n gwneud cyfraniad pwysig i ofal cleifion.



Diweddariad ar y Brechlyn

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl staff am arddangos gwydnwch a natur broffesiynol drwy gydol ein rhaglen frechu, gyda'n rhaglenni COVID-19 a fflw yn parhau i wneud cynnydd da.

Cael eich brechu yw'r amddiffyniad gorau rhag salwch difrifol o ganlyniad i feirysau fel COVID-19 a'r fflw o hyd. Y gaeaf hwn, mae'n bosibl y byddwn yn gweld COVID-19 a'r fflw yn lledaenu ar yr un pryd, felly mae cael eich brechu yn bwysig i helpu amddiffyn eich hun, eich teulu a'ch cymuned.

Mae ein rhaglen brechiad rhag y fflw yn mynd rhagddi'n dda ac rydym yn gweithio gyda phractisau meddygon teulu, Fferyllfeydd Cymunedol ac Arweinwyr Fflw ymhlith ein staff i sicrhau bod y rhai sydd heb gael eu brechiad rhag y fflw y tymor hwn yn cael cynnig y brechiad dros yr wythnosau nesaf.

Os ydych chi'n gymwys, fe gewch chi gynnig dos atgyfnerthu COVID-19 dim cynharach na 6 mis ar ôl eich ail ddos. Rydym yn trefnu apwyntiadau dos atgyfnerthu yn yr un drefn y rhoddwyd yr ail ddosau. Pan fydd eich tro chi, byddwch yn derbyn llythyr apwyntiad yn eich gwahodd i ddod i gael dos atgyfnerthu. Arhoswch i ni gysylltu â chi, mae ein llinell trefnu apwyntiadau yn parhau i dderbyn nifer uchel o alwadau, felly dylech ffonio'r llinell trefnu apwyntiadau os bydd angen i chi ganslo neu aildrefnu eich apwyntiad yn unig. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am raglen dos atgyfnerthu'r hydref, ewch i wefan lechyd Cyhoeddus Cymru drwy glicio yma.

Byddwn yn eich annog yn gryf i gael eich brechu dros yr wythnosau nesaf, i helpu i atgyfnerthu eich imiwnedd y gaeaf hwn. Os ydych yn gymwys ac yn cael gwahoddiad i dderbyn eich brechiad rhag y fflw neu'ch dos atgyfnerthu COVID-19, peidiwch ag oedi, rhowch flaenoriaeth i'ch apwyntiadau.

Cyflwyniad i Driwriaeth Arweinyddiaeth Safle a Chanolfan OPAT (Gweithrediadau, Cynllunio a Thrawsnewid) yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Wrth i ni symud ymlaen o drydedd ton y pandemig COVID-19, ymateb i'r galw am ofal wedi'i drefnu a gofal heb ei drefnu, a phrofi anawsterau parhaus yn lleoli ein gweithlu, gwnaed y penderfyniad i gyflwyno trefniant arwain newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Mae'r dull hwn o arwain ar y safle yn fwyfwy cyffredin ar draws sefydliadau GIG mawr a bydd yn darparu arweinyddiaeth weladwy, cadwyni gwneud penderfyniadau byrrach a datrys problemau gyda staff ledled yr ysbyty a thu hwnt. Nid yw'r driwriaeth yn haen ychwanegol o reoli: mae ganddynt awdurdod dirprwyedig gan Dîm Gweithredol y Bwrdd lechyd i arwain a chefnogi staff ar draws yr ysbyty.

Y driwriaeth a benodwyd yw:

- Scott McLean, Rheolwr Gyfarwyddwr (YAC)
- Alun Tomkinson, Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt (YAC)
- Jason Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio / Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro (YAC)

Mae triwriaeth YAC yma i gefnogi staff fel y gallwn ni wneud gwahaniaeth cadarnhaol ar adeg sy'n unigryw o anodd yn ein gwasanaeth iechyd. Mae trefniadau arweinyddiaeth safle tebyg yn cael eu sefydlu yn Ysbyty Athrofaol Llandochau a gyda Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned. Bydd tîm arweinyddiaeth safle YAC yn gweithio'n agos gyda'r ddau dîm arweinyddiaeth safle arall i sicrhau bod ymateb system gyfan.

Diweddariad ar diwbiau casglu gwaed

Mae'n bosibl y byddwch yn ymwybodol, ers mis Awst, bod prinder difrifol yn genedlaethol o'r tiwbiau casglu a ddefnyddir i gymryd samplau gwaed.

Mae'r sefyllfa wedi peri pryder mawr ar draws y GIG ac wedi golygu ein bod wedi gorfod lleihau nifer y profion gwaed nad ydynt yn rhai brys yn glinigol a phrofion gwaed rheolaidd, lle bo'n ddiogel gwneud hynny, er mwyn cadw cyflenwadau tiwbiau ar gyfer y bobl sydd angen profion gwaed ar frys.

Er mwyn gwarchod cyflenwadau ymhellach, mae ein timau wedi bod yn adolygu prosesau i ddod o hyd i gyfleoedd lle gallant nodi a chael gwared ar brofion diangen neu brofion wedi'u dyblygu. Mae eu gwaith gwych wedi amlygu ymarferion newydd, effeithlon a chynaliadwy y byddwn yn parhau i'w defnyddio o hyn ymlaen, gan ein galluogi i leihau gwastraff a defnydd diangen o diwbiau casglu gwaed yn y dyfodol.

Rydwi i wedi rhyfeddu at gyfraniad y staff, y mae eu hymdrechion i reoli'r defnydd o diwbiau wedi atal y sefyllfa rhag gwaethygu ac effeithio ar brofion gwaed brys, a diolch yn arbennig i'n cydweithwyr yn y maes gofal sylfaenol.

Ymddengys bod y broblem a arweiniodd at y prinder mewn tiwbiau gwaed wedi'i datrys, diolch byth, ac rydym yn dechrau gweld stociau o'r tiwbiau yn dychwelyd i lefelau mwy cyfforddus. Fodd bynnag, rydym ni nawr yn wynebu ôl-groniad o samplau rheolaidd a samplau nad ydynt yn rhai brys yn glinigol sydd angen eu prosesu, ar adeg pan mae ein sefydliad o dan y pwysau mwyaf sylweddol yn ei hanes.

Gallwch fod yn hyderus, wrth i ni weithio ar flaenoriaethu a gwneud ein ffordd drwy'r ôl-groniad hwn o samplau rheolaidd a samplau nad ydynt yn rhai brys yn glinigol, ein bod ni'n parhau i sicrhau bod yr holl brofion gwaed

brys yn glinigol yn cael eu casglu. Os ydych chi'n bryderus neu angen mynediad at ofal brys, cysylltwch â'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Staff nyrsio a chyfarwyddwyr yn 'gweithio gyda'i gilydd' y gaeaf hwn

Wrth i ni nesáu at y gaeaf, rydym yn bryderus am y pwysau a roddir ar ein timau nyrsio a bydwreigiaeth ac rydym wedi dechrau nifer o fentrau i roi hwb i recriwtio a chryfhau ein gweithlu. Bydd ein Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ruth Walker, hefyd yn siarad yn uniongyrchol â'n nyrsys, bydwreigedd ac ymarferwyr yr adran lawdriniaethau ar draws y bwrdd iechyd i ddarganfod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd yn well a chefnogi ein gilydd dros y gaeaf. Bydd Ruth yn cynnal sesiwn holi ac ateb arbennig ar-lein yn ogystal â chyfres o sesiynau galw heibio mewn meysydd allweddol. Byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth yn fuan felly gofynnwn i staff gadw llygad allan am y wybodaeth hon.

Adfer ac Ailgynllunio: Gwasanaethau Endosgopi

O ganlyniad i'r pandemig, rydym wedi gweld nifer gynyddol o gleifion yn aros am driniaethau ac archwiliadau. Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r gwasanaeth i recriwtio staff parhaol ychwanegol a gweithredu trefniant mewnol i gynyddu faint o weithgarwch sy'n digwydd, sy'n golygu ein bod yn gallu lleihau nifer y cleifion sy'n aros.

Mae ein tîm wedi cael ei atgyfnerthu gan Endosgopydd Nyrs Clinigol, Endosgopydd Ymgynghorol a rhoddwyd trefniadau i ddefnyddio gwasanaethau mewnol yn eu lle. Mae'r broses o recriwtio staff nyrsio endosgopi parhaol yn mynd rhagddi.

Mae penodi'r Endosgopydd Ymgynghorol wedi'n galluogi i gyflawni proses dilysu clinigol ar 25% o gleifion sydd ar y rhestr aros archwiliadau o oddeutu 4000 o gleifion sy'n defnyddio adnodd pennu lefel risg Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain. Mae'r broses hon yn mynd rhagddi.

Mae staff newydd hefyd wedi arwain at allu sefydlu gweithgarwch mewnol, gydag 8 rhestr bob penwythnos yn Ysbyty Athrofaol Llandochau a 4 rhestr yr wythnos yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gosod unedau hidlo aer, sydd wedi arwain at gynydd yn nifer yr OGDau a wneir ar bob rhestr o ddau glaf.

Caiff gweithgarwch ei fonitro'n wythnosol. O wythnos diwethaf, roedd gweithgarwch 124% o lefelau cyn-COVID sy'n golygu bod y gwasanaeth bellach yn gallu dechrau mynd i'r afael â pheth o'r ôl-groniad sydd wedi casglu yn ystod y pandemig.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae disgwyl i beilot o endosgopi traws-drwynol ddechrau yn gynnar ym mis Rhagfyr a fydd, os yw'n llwyddiannus, yn cynyddu capasiti ymhellach. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac In Health i gael gafael ar uned endosgopi symudol y gellir ei gosod yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Y gobaith yw y bydd yr uned ar waith yn llawn yn ystod Ionawr-Mawrth 2022.

PenGU yn cyrraedd carreg filltir wrth ddilyniannu samplau COVID-19

Mae ein cydweithwyr a'n partneriaid yn yr Uned Genomeg Pathogen (PenGU) flaenllaw yn lechyd Cyhoeddus Cymru wedi dilyniannu dros 100,000 o samplau COVID-19 yn swyddogol ac maent yn parhau i wneud hynny. Mae dilyniannu samplau yn hanfodol i fonitro sut mae'r feirws yn datblygu yng Nghymru ac i nodi amrywiadau newydd a pha effaith y gallent ei chael ar sut mae'r feirws yn ymddwyn.

Mae'r garreg filltir allweddol hon yn cryfhau safle Cymru fel arweinydd byd-eang ym maes Genomeg ac wedi galluogi gwyddonwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i wneud penderfyniadau gwybodus trwy gydol datblygiad y pandemig ac, yn fwy hanfodol, i ganfod straeniau ac amrywiadau newydd yn gynt a pha effaith maent yn ei chael ar sut mae'r feirws yn ymddwyn.

Hoffwn ddiolch yn bersonol i Dr Fu-Meng Khaw, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac i Dr Sally Corden, Pennaeth PenGU a'i thîm am eu cefnogaeth.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cyfyngiadau parcio yn dychwelyd ar 1 Rhagfyr

Fel y gwyddoch erbyn hyn, o 1 Rhagfyr byddwn yn ailgyflwyno'r cyfyngiadau parcio a oedd yn eu lle cyn y pandemig. Bydd y contractwyr ParkingEye yn ôl ar y safle i sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr yn parcio mewn ardaloedd dynodedig. Rydym yn deall bod lleoedd parcio yn brin a'i bod hi'n hynod brysur ar adegau, felly rydym yn gofyn i'r rhai sy'n gallu i ystyried ffyrdd amgen o deithio, gan gynnwys y gwasanaeth Parcio a Theithio am ddim i Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochoau. Mae'r bysiau ar gael drwy'r dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i ddarparu taith ddi-straen i'n prif ysbytai ar gyfer cleifion, staff ac ymwelwyr. [Gweler ein gwefan i gael gwybodaeth am yr amserlen.](#)



Ysbyty Athrofaol Cymru yn nodi 50 mlynedd ers ei agor

Mae dydd Gwener 19 Tachwedd yn nodi 50 mlynedd ers ei agoriad swyddogol gan Ei Mawrhydi y Frenhines ym 1971. Bydd Radio Glamorgan, ein gorsaf ysbyty, yn cyflwyno bore Gwener i'r flwyddyn 1971, gyda chymysgedd o gerddoriaeth ac atgofion. Ymunwch ar-lein drwy wefan Radio Glamorgan neu gwrandewch ar eich dyfais gyfar.

Lansio ein gwefan newydd - Llunio ein Gofal Iechyd Cynaliadwy i'r Dyfodol

Y dilyn Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) yn ddiweddar, a chyn Wythnos Hinsawdd Cymru 2021, rydym wedi lansio ein gwefan newydd Llunio ein Gofal Iechyd Cynaliadwy i'r Dyfodol. Mae'r wefan newydd yn darparu gwybodaeth am Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ogystal â'r mentrau

rydym yn eu gweithredu er mwyn gwella cynaliadwyedd wrth gyflwyno gofal iechyd. Yn BIP Caerdydd a'r Fro, rydym yn angerddol am wella ein heffaith ar yr amgylchedd. Mae'r cynllun hwn, a chanolfan ymgysylltu yn y dyfodol, yn adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni, ac rydym yn edrych ymlaen at gymryd camau eraill yn y dyfodol a fydd yn gosod y nodau a'r uchelgeisiau yn uwch byth.



Llunio ein
Gofal Iechyd Cynaliadwy
i'r Dyfodol
Shaping Our Future
Sustainable Healthcare

Enillydd Arwr Iechyd

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi cyhoeddi mai Carly Shier yw Arwr Iechyd mis Tachwedd a bydd yn derbyn rhodd gan y noddwr, Park Plaza Caerdydd. Cafodd Carly, a ddechreuodd ei gyrfa yn y maes Caffael fel prynwr cyn ymuno â Thîm Storfeidd Theatr YALI, ei henwebu gan ei chydweithiwr,

Victoria Wilson, Rheolwr Gwasanaeth Cynorthwyol. Caiff Carly ei hystyried yn ased enfawr gydag ymagwedd 'gallu gwneud' ac mae'n enghraifft safon aur o 'wneud y peth iawn'. Os hoffech chi enwebu aelod o staff sydd wedi gweithio'n ddiflino i helpu cydweithwyr neu gleifion ac sy'n haeddu cydnabyddiaeth, e-bostiwch fundraising.cav@wales.nhs.uk